# Canlyniadau arolwg ymwelwyr Dewch i Gonwy – Mai 2020



# Crynodeb Gweithredol

Ym mis Mai 2020, cynhaliodd tîm twristiaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy arolwg ymwelwyr i benderfynu sut y byddai ymwelwyr yn teimlo ynglŷn â dychwelyd am wyliau i'r ardal ar ôl pandemig Covid-19. Roedd yr arolwg hefyd yn holi'r ymatebwyr pa fesurau diogelwch fydden nhw'n hoffi eu gweld ar waith yn y sir.

Cwblhaodd cyfanswm o 1480 o dderbynyddion yr arolwg. Derbyniodd yr ymatebwyr yr arolwg drwy amrywiaeth o wahanol sianelau gan gynnwys tudalennau cyfryngau cymdeithasol Dewch i Gonwy a chronfa ddata marchnata Dewch i Gonwy. Gofynnwyd hefyd i fusnesau lleol rannu'r arolwg gyda'u cwsmeriaid.

**Mae'r prif ddarganfyddiadau fel a ganlyn:**

- Mae nifer uchaf yr ymatebwyr (592) yn dod o Ogledd Orllewin Lloegr ac yn 65 oed a hŷn. Maen nhw'n debygol o deithio fel cwpwl.
- Mae 64% o ymwelwyr yn dymuno aros am ychydig ddyddiau / wythnos ac mae 68% eisiau aros mewn trefi traddodiadol neu drefi glan y môr. Bydden nhw'n hoffi teithio i Sir Conwy ym mis Gorffennaf 2020.
- Bydd 84% o'r ymwelwyr yn teithio i Sir Conwy mewn car a 50% o'r ymwelwyr ddim yn teimlo'n gyfforddus yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus tra byddant yn yr ardal.
- Mae 59% o'r ymwelwyr yn dymuno aros mewn carafanau neu eiddo hunanarlwyo arall ac nid yw eu dewis o lety wedi ei ddylanwadu gan Covid-19.
- Mae 60% o'r ymwelwyr yn gyfforddus iawn yn ymweld ag atyniadau awyr agored, a'r atyniadau mwyaf poblogaidd yw traethau, mynyddoedd a gerddi. Nid ydynt mor gyfforddus yn ymweld ag atyniadau dan do.
- Mae 77% yn teimlo'n eithaf cyfforddus yn ymweld â chaffis a bwytai gan gadw pellter cymdeithasol.


Bydd yr adroddiad canlynol yn rhoi dadansoddiad manwl o'r prif ddarganfyddiadau a nodwyd uchod.

# Lleoliad ymatebwyr yr holiadur

Mae nifer uchaf yr ymatebwyr yn byw yng Ngogledd Orllewin Lloegr. Gwyddom fod y fan hon yn farchnad allweddol ar gyfer twristiaeth yn Sir Conwy. Mae'r A55 yn ei gwneud hi'n hawdd iddyn nhw deithio o'r Gogledd Orllewin i Ogledd Cymru.

Y lleoliad gyda'r ail nifer uchaf o ymatebwyr yw Cymru. Gwyddom y bydd hon yn farchnad allweddol yn y dyfodol oherwydd bod gwyliau gartref yn debygol o ddod yn fwy poblogaidd yn sgil y pandemig.

Roedd y rhai a nododd "arall" yn ymwelwyr rhyngwladol yn bennaf, ac America oedd y brif gyrchfan ryngwladol ymysg yr ymatebwyr.




# Oedran yr ymatebwyr a phroffil ymwelwyr

Roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr yn gyplau sy'n 65 oed a hŷn. Unwaith eto, gwyddom fod y grŵp oedran hwn yn un o’n prif gynulleidfaoedd.

Ar y cyfan, mae ein prif gynulleidfa yn gyplau sydd dros 45 oed.


Y farchnad deuluol yw’n hail gynulleidfa fwyaf.



# Adeg o’r flwyddyn yr hoffai’r ymatebwyr ymweld

Hoffai cyfran fwyaf o’r ymatebwyr deithio i Sir Conwy ym mis Gorffennaf 2020, cyn belled a bod y cyfyngiadau wedi eu llacio.

Mae hyn yn dynodi fod ymwelwyr yn awyddus iawn i ddod ar wyliau yn yr ardal eleni.




# Math dewisol o wyliau

Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr (68%) mai trefi bach neu rai traddodiadol glan y môr fyddai orau ganddynt. Mae'n bosibl fod hyn oherwydd y bydd ymwelwyr eisiau osgoi dinasoedd mawr a threulio gwyliau mewn ardaloedd tawelach gyda llai o bobl ynddynt. Canolfannau gwyliau mawr oedd y dewis lleiaf poblogaidd.

Dywedodd 18% o'r ymatebwyr yr hoffen nhw dreulio gwyliau naill ai yng nghefn gwlad neu yn agos at fynyddoedd a bryniau.


Efallai y bydd angen ymgyrch farchnata er mwyn sicrhau fod ymwelwyr yn cael eu gwasgaru'n ddigonol drwy'r sir er mwyn osgoi gorboblogi un dref / ardal.



# Am ba hyd fyddai ymwelwyr yn hoffi aros.

Dywedodd 64% o'r ymatebwyr yr hoffen nhw aros am ychydig ddyddiau neu wythnos ar eu gwyliau nesaf i'r sir. Mae hyn yn galonogol o ran adfer ein heconomi gan fod ymwelwyr dros nos yn ychwanegu mwy o werth i'r economi leol o gymharu ag ymwelwyr am ddiwrnod.


Nododd y rhai a ddewisodd "arall" eu bod yn bwriadu ymweld yn rheolaidd ac / neu aros am gyfnodau estynedig mewn carafán neu ail gartref.




# Teithio i Sir Conwy ac o'i hamgylch

Nododd mwyafrif yr ymatebwyr y bydden nhw'n teithio i Sir Conwy mewn car. Dim ond cyfran fechan o'r ymatebwyr fyddai'n teithio gyda thrafnidiaeth gyhoeddus.

Mae'n debyg fod hyn oherwydd bod peth pryder ynglŷn â diogelwch defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Dangosir hyn yn glir o'r graff llinell isod. Yn gyffredinol, ni fyddai ymwelwyr yn teimlo'n gyfforddus yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Ond, sgoriodd cyfran helaeth o'r ymatebwyr 3/5 pan ofynnwyd iddynt pa mor gyfforddus fydden nhw'n teimlo'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Mae hyn yn dynodi nad ydyn nhw'n teimlo'n gryf iawn y naill ffordd na'r llall ac y gellid eu perswadio i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus pe baem ni'n codi ymwybyddiaeth o'r mesurau sydd wedi eu rhoi ar waith i gadw teithwyr yn ddiogel.




# Pa mor gyfforddus fyddai ymwelwyr yn teimlo'n teithio ar fws taith


Yn gyffredinol, nododd yr ymatebwyr na fyddent yn teimlo'n gyfforddus yn teithio ar fws taith.

Ond, gan fod cyfran sylweddol o'r ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn hwn gyda sgôr o 3/5, gallwn gymryd yn ganiataol nad oes ganddynt farn gref y naill ffordd na'r llall. Felly, os yw cwmnïau teithio'n cynllunio i anfon negeseuon at gwsmeriaid i ddweud beth allan nhw ei ddisgwyl wrth archebu eu taith nesaf, yn ogystal â'r mesurau maen nhw wedi eu cymryd i gadw teithwyr yn ddiogel, efallai y bydd hynny o gymorth i ymwelwyr deimlo'n fwy cyfforddus yn teithio ar fws taith.



# Dewis llety


Nododd 31% o'r ymatebwyr y bydden nhw'n aros yn eu carafán eu hunain, neu mewn un wedi ei llogi neu mewn carafán deithiol ar eu hymweliad nesaf i Sir Conwy.
Yn ddiddorol, yr ail ddewis mwyaf poblogaidd o lety yw gwestai. Mae hyn yn awgrymu nad oes ar ymwelwyr ofn aros mewn llety sy'n rhannu cyfleusterau e.e. bwyty / bar Ond, ar y cyfan byddai ymwelwyr yn dewis llety hunanarlwyo yn hytrach na llety â gwasanaeth. Dewisodd 59% o'r ymatebwyr rhyw fath o lety hunanarlwyo o'i gymharu â 41% a ddewisodd lety a gwasanaeth.



# Faint mae Covid-19 wedi effeithio ar ddewis ymwelwyr o lety?


Nododd cyfran uchaf yr ymatebwyr (428) nad yw Covid-19 wedi dylanwadu ar eu dewis o lety. Gallai hyn fod oherwydd eu bod yn berchen ar garafán ac y bydden nhw'n aros yno fel arfer. Posibilrwydd arall yw y bydden nhw'n aros gyda theulu neu ffrindiau fel arfer.

Ond er hynny, nododd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr (407) y byddai Covid-19 yn effeithio ar eu dewis o lety.




# Sut fyddai ymwelwyr yn teimlo'n ymweld ag atyniadau prysur dan do

Rhoddodd 471 o ymatebwyr sgôr o 3/5 pan ofynnwyd iddynt, ar raddfa o 1 i 5, pa mor gyfforddus fydden nhw'n teimlo yn ymweld ag atyniadau prysur dan do. Mae hyn yn awgrymu nad ydyn nhw wedi ffurfio barn gref ynglŷn ag ymweld  ag atyniadau dan do neu beidio. Felly, os bydd atyniadau dan do yn cynllunio negeseuon sy'n egluro'r hyn y gall ymwelwyr ei ddisgwyl wrth gyrraedd, yn ogystal â dweud pa fesurau diogelwch sydd wedi eu rhoi ar waith, efallai y gallant annog ymwelwyr i deimlo'n gyfforddus wrth ymweld â'u hatyniad.




# Sut fyddai ymwelwyr yn teimlo'n ymweld ag atyniadau prysur yn yr awyr agored

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (60%) yn teimlo'n gyfforddus iawn yn ymweld ag atyniadau awyr agored. Nid yw hyn yn syndod o ystyried y cyngor ar hyn o bryd fod llai o risg o ddal Coronafeirws tra byddwch yn yr awyr agored.



# Pa atyniadau mae ymwelwyr am ymweld â nhw ar ôl y cyfyngiadau ar symud


Yn gyffredinol, mae ymwelwyr am ymweld ag atyniadau awyr agored pan fydd y cyfyngiadau wedi eu llacio.
Traethau, mynyddoedd a gerddi yw'r tri atyniad mwyaf poblogaidd y mae ymwelwyr am ymweld â nhw. Mae’r atyniadau hyn yn cynnig mannau agored eang, sy’n ei gwneud yn haws i arfer cadw pellter cymdeithasol. Mae’n debyg mai dyma’r rheswm bod yr atyniadau hyn mor boblogaidd ymysg darpar ymwelwyr.
Canolfannau gweithgareddau dan do yw’r atyniadau lleiaf poblogaidd gyda darpar ymwelwyr ar hyn o bryd.



# Pa mor debygol yw ymwelwyr o fwyta mewn bwytai a chaffis lleol

Mae mwyafrif yr ymatebwyr (77%) yn teimlo'n eithaf cyfforddus neu'n gyfforddus iawn yn ymweld â bwytai a chaffis lleol sydd wedi mabwysiadu mesurau cadw pellter cymdeithasol.

Unwaith eto, bydd angen i fwytai a chaffis gynllunio negeseuon a chodi ymwybyddiaeth o'r mesurau maen nhw wedi eu cymryd i gadw cwsmeriaid yn ddiogel wrth iddyn nhw ymweld â'u heiddo.



# Pam mae ymwelwyr am ymweld â Sir Conwy?

Mae'r prif resymau pam mae ymwelwyr eisiau treulio gwyliau yn Sir Conwy wedi eu rhestru isod:

- Dywedodd 29% o'r ymwelwyr ei fod yn lleoliad hardd a'u bod wrth eu bodd hefo'r ardal
- Dywedodd 20% o'r ymwelwyr eu bod yn teithio i'r ardal yn rheolaidd
- Dywedodd 13% o'r ymwelwyr ei bod yn agos at eu cartref felly nad oes raid iddynt deithio'n bell iawn
- Mae gan 10% o'r ymwelwyr ail gartref yn yr ardal
- Mae 9% o'r ymwelwyr yn teithio'n benodol er mwyn ymweld â chefn gwlad / mynyddoedd yr ardal
- Mae 5% o'r ymwelwyr yn teithio'n benodol er mwyn dod i'r traethau a'r arfordir

"Rydw i wrth fy modd hefo Conwy ac eisiau dod a fy wyrion i chwarae ar y traethau, i ymweld â'r cestyll ac iddyn nhw gael gweld mor hardd yw eich ardal chi."

"Wedi bod yn dod i Ogledd Cymru ers i mi fod yn ferch ifanc. Rydyn ni wedi treulio gwyliau gyda'n plant mewn carafanau a bellach yn ymweld gyda'n hwyrion. Rydyn ni wrth ein bodd yn dod i Ogledd Cymru. Mae'n hardd iawn, diogel, glân ac yn groesawgar bob amser."

# Pa fesurau diogelwch mae ymwelwyr eisiau eu gweld ar waith yn Sir Conwy?

Rhoddodd 74% o'r ymatebwyr awgrymiadau o atebion i'r cwestiwn hwn. Dyma'u prif sylwadau:

- 52% o ymatebwyr yn nodi eu bod eisiau gweld pobl yn cadw pellter cymdeithasol o fewn y sir er mwyn osgoi gorlenwi.
- 22% o'r ymatebwyr yn gwneud sylw yr hoffen nhw weld mwy o ddiheintyddion dwylo o amgylch y sir, yn ogystal ag mewn eiddo busnes.
- 9% o'r ymatebwyr eisiau gweld yr heddlu'n gorfodi'r rheolau diogelwch yn yr ardal.
- 8% yn gwneud sylw y bydden nhw angen mynediad at doiledau cyhoeddus glân.
- 6% o'r ymatebwyr yn dweud eu bod eisiau gweld arwyddion a gwybodaeth diogelwch clir o amgylch y sir.
- 6% o'r ymatebwyr yn awgrymu y dylai atyniadau a lleoliadau dan do gyfyngu ar nifer y cwsmeriaid ar un adeg benodol.
- 5% o ymatebwyr eisiau gweld ardaloedd cyhoeddus yn cael eu glanhau'n rheolaidd.
- 3% o'r ymatebwyr eisiau gweld pobl yr ardal yn gwisgo mygydau.
- 2% o'r ymatebwyr eisiau gweld llefydd bwyta tu allan sy'n lân ac yn ddiogel.

"Cyn belled a bod gan siopau, caffis ac atyniadau eraill reolau cadw pellter cymdeithasol cywir a bod pawb yn eu dilyn, dwi'n meddwl y bydd pobl yn gallu mwynhau dod i Gonwy eto."

"Rheolau da, clir a rhai sydd wedi eu gweithredu'n dda ar gyfer mannau prysur. Hoffwn deimlo'n hapus y gallwn fynd i barc neu draeth a theimlo fod rheolau mewn lle a'u bod yn cael eu monitro fel bod pawb yn cael mwynhau'r profiad."

# Pa negeseuon marchnata mae ymwelwyr am eu gweld?

Dywedodd 74% y bydden nhw'n hoffi parhau i dderbyn negeseuon marchnata gennym ni yn ystod y cyfyngiadau ar symud. Roedd mwyafrif y rhain yn hapus i dderbyn unrhyw fath o neges marchnata – ddim ond er mwyn cadw mewn cysylltiad gyda ni.

Dyma'r negeseuon eraill yr hoffai pobl gael gwybod amdanynt:

Diweddariadau ynglŷn â sut mae'r cyfyngiadau'n cael eu llacio yng Nghymru a pha fesurau diogelwch mae busnesau wedi eu gweithredu i gadw ymwelwyr yn ddiogel.

Gwybodaeth ynglŷn â newyddion cyffredinol yn yr ardal a digwyddiadau sydd i ddod.

Gwybodaeth am atyniadau y caiff ymwelwyr ymweld â nhw.

Straeon newyddion cadarnhaol er mwyn cynnal gobeithion ymwelwyr.

Gwybodaeth ynglŷn ag unrhyw gynigion arbennig.

Pan nad oedd ymatebwyr eisiau derbyn negeseuon marchnata gennym, y rheswm pennaf dros hynny oedd y ffaith nad oedden nhw'n gyfforddus yn meddwl am deithio ar yr adeg hon.

"Rydw i'n mwynhau eich ymgyrch Hwyl Fawr. Am y tro – dydw i ddim yn meddwl fod angen i chi rannu mwy na hyn. Mae'r ymgyrch yma'n tynnu sylw at bethau gwych am yr ardal, a hefyd yn cyfleu'r neges fod angen aros adref."

"Rydw i wrth fy modd yn gweld lluniau o'r ardal, ond byddai gen i ddiddordeb hefyd mewn gwybod sut mae busnesau yn ymdopi gyda'r cyfyngiadau ar symud. Hefyd, hoffwn wybod ydy llefydd aros yn cymryd archebion dros dro ar gyfer dyddiadau yn y dyfodol, yn enwedig erbyn pan fydd y cyfyngiadau'n dechrau llacio."

"unrhyw beth cadarnhaol - fel rydych wedi bod yn gwneud yn barod. Er ei bod hi'n amlwg fod yr ardal 'ar gau', mae'r negeseuon wedi bod yn rhai cyfeillgar, calonogol ac optimistaidd."

# Pa fesurau diogelwch mae ymwelwyr eisiau eu gweld ar waith yn Sir Conwy?

Dim ond 32% o'r ymatebwyr a roddodd sylwadau yn yr adran hon o'r arolwg. Roedd y prif sylwadau a wnaed yma'n gadarnhaol iawn. Gwnaeth mwyafrif yr ymatebwyr (42%) sylwadau ynglŷn â'u hoffter o'r ardal a'u bod yn gyffrous o feddwl am gael dod yn ôl. Roedden nhw hefyd yn dymuno'n dda i ni ar gyfer y dyfodol. Roedd sylwadau eraill yn cynnwys:

Mae ymwelwyr am weld pa fesurau sydd wedi eu rhoi ar waith mewn busnesau lleol i'w cadw nhw'n ddiogel.

Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau ynglŷn â theimladau gwrth-ymwelwyr ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol.

Byddai ymwelwyr yn gyndyn o ddychwelyd pe bai agwedd elyniaethus pobl leol yn parhau.

Gwnaed rhai sylwadau ynglŷn â chaniatáu i berchnogion ail gartrefi / carafanau ddychwelyd i'w heiddo er mwyn gwneud gwaith cynnal a chadw.

Rhai sylwadau ynglŷn âa chadw'r ardal yn lân. Mae lluniau o finiau'n gorlifo / tipio anghyfreithlon wedi eu rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol.

"Diolch am eich holl waith caled yn cadw Sir Conwy yn lle mor hyfryd a phleserus i ymweld ag ef."

"Mae Llandudno a'r ardal yn lle gwyliau gwych. Cafodd y ddau wyliau a archebais eu canslo..ond gobeithio y gallaf eu harchebu rhywbryd eto. Da iawn am gynnal cyrchfan wyliau mor hyfryd.

"Unwaith y bydd y cyfyngiadau wedi eu codi, byddaf yn ôl ar fy union. Rydw i wedi ymweld dros bron i 57 o fy mlynyddoedd ac os enillaf y loteri, byddaf yn symud i fyw i'r ardal."

# Casgliad

I gloi, mae’r adroddiad hwn yn amlygu'r ffaith fod ymwelwyr yn frwd iawn dros ddychwelyd i dreulio gwyliau yn Sir Conwy unwaith y bydd y cyfyngiadau ar symud wedi eu llacio. Mae’n debyg y bydd ton o ymwelwyr o Ogledd Orllewin Lloegr sy’n bwriadu aros am ychydig ddyddiau yn yr ardal. Gan fod 68% o’r ymatebwyr wedi nodi eu bod eisiau aros mewn tref ar lan y môr, efallai y bydd angen i ni drefnu ymgyrch farchnata er mwyn annog ymwelwyr i archwilio mannau mwy gwledig yn y sir. Bydd hyn yn helpu i sicrhau na fydd ein harfordir yn orlawn. Os bydd y traethau a’r mynyddoedd yn mynd yn rhy brysur, gallai hyn achosi sylw negyddol i’n hardal – fel sydd wedi digwydd yn Lloegr. Byddai hyn yn rhwystro ymwelwyr posibl rhag teithio yma.

Gan mai cyplau 65 oed a hyn yw ein prif farchnad, mae’n rhaid i ni ystyried y ffaith y bydd rhai o’r grŵp hwn yn nerfus i ymweld ag atyniad / ardal sy’n cael ei hadnabod fel un anniogel. Bydd angen i fusnesau sicrhau fod ganddynt ddigon o fesurau diogelwch mewn lle e.e. arwyddion yn annog ymwelwyr i gadw 2 fetr ar wahân, diheintyddion dwylo ayyb. Bydd angen i fusnesau hefyd godi ymwybyddiaeth am fesurau diogelwch sydd wedi eu rhoi ar waith ganddynt yn eu heiddo er mwyn annog ymwelwyd i ddod. Os bydd ymwelwyr yn gwybod beth allan nhw ei ddisgwyl wrth gyrraedd a’u bod yn gallu gweld fod mesurau diogelwch digonol wedi eu rhoi ar waith, fe fyddan nhw’n teimlo’n llawer mwy cyfforddus ynglŷn ag ymweld â’r busnes dan sylw. Mae’r tîm twristiaeth yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn hapus i rannu unrhyw negeseuon gyda’n hymwelwyr gan fusnesau sydd am godi ymwybyddiaeth o’r mesurau diogelwch sydd ar waith ganddynt.

Ar y cyfan, mae’r adroddiad hwn yn arwydd cadarnhaol fod posibl i’r diwydiant ymwelwyr yn Sir Conwy wella ar ôl argyfwng Covid-19. Mae ymwelwyr yn arbennig o awyddus i ddychwelyd i’r ardal hon. Y cyfan sy’n rhaid i ni ei wneud yw sicrhau fod gennym ddigon o gynlluniau mewn lle erbyn pan fydd y cyfyngiadau ar symud yn cael eu llacio fel y gallwn groesawu ymwelwyr yn ôl i’n sir hyfryd unwaith eto.